

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Llandygai

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwysu ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol Llandygai ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £34,900

Yn Ysgol Llandygai mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

Gwariant GAD 2016-17 Dyraniad - £34,900

Maes	Gwariant
Staffio Cyfnod Allweddol Dau i roi ar waith rhaglenni ymyrraeth amrywiol: Cymhorthydd 1: 8.75awr yn ychwanegol i oriau gan y sir. Cymhorthydd 2: 28.75 awr. Cymhorthydd 3: 25 awr.	£24,192
Rhaglen ymyrraeth Headsprouts	£1,000
Class Act gan gwmni Anomaly – hybu gwaith llafar / llythrennedd	£2,200
Cyfrifiaduron newydd i gefnogi'r rhaglen Headsprouts	£2,417
Llyfrau darllen -	£3291
Iris Connect – arsylwi gwersi i gau'r bwlch	£1,800
Cyfanswm	£34,900

Mae cyfradd helaeth o'r GAD yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyflogi cymorthyddion arbenigol fydd yn cefnogi a thracio cynnydd disgyblion drwy ymyrraethau amrywiol. Mae peth o'r GAD wedi ei glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn cyfarpar ac adnoddau arweiniol. Bydd tracio gofalus a thrylwyr ar waith er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.